TGAU

3010N20-1

DYDD GWENER, 7 MEHEFIN 2024 – PRYNHAWN

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 2: Y Nofel

## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**Defnyddiwch yr indecs ar dudalen 3 i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.**

**Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.**

**Ni allwch ddefnyddio geiriaduron na thestunau gosod.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

(Trowch y dudalen)

| NOFELAU | TUDALEN |
| --- | --- |
| LLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas) | 4 |
| BACHGEN YN Y MÔR (Morris Gleitzman Addasiad Elin Meek) | 9 |
| DIFFODD Y SÊR (Haf Llewelyn) | 14 |
| AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones) | 19 |
| I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn) | 24 |
| LLYFR GLAS NEBO (Manon Steffan Ros) | 29 |


(Trowch y dudalen)

**LLINYN TRÔNS – BETHAN GWANAS**

**1.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**11.** **Sut berthynas sydd rhwng Llion a chymeriadau Gags a Nobi?**
**Cyfeiriwch at 2 ddigwyddiad i esbonio hyn.**
**[3 marc]**

**12.** **Erbyn diwedd y nofel mae Llion yn fwy hyderus. Nodwch 3 pheth i esbonio sut mae hyn wedi digwydd. [3 marc]**

**13.** **Ysgrifennwch hanes y criw yn canwio yn y nofel.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10 marc]**

**14.** **Sut gymeriad yw GWENAN? Pam rydych chi'n dweud hyn?**
**Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. [6 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**15.** **Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o LLINYN TRÔNS ar dudalennau 7–8.**

**(a)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 15–16 yn y darn.**

**Ond fel hyn bydd hi rŵan, beryg. Tridiau o uffern.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(b)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 28–29 yn y darn.**

**… sy'n edrych fel dyn SAS a dwylo fel rhawiau ganddo fo ...**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(c)** **Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol.**

**[4 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**16.** **Dychmygwch mai chi yw GWENAN.**
**Ysgrifennwch LYTHYR Gwenan at ei ffrind ar ôl y disgo a'r twmpath ar y noson olaf yn y gwersyll.**
**Cofiwch sôn am eich teimladau a'r pethau sydd wedi digwydd hyd at y digwyddiad hwn.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Mae'r gwely 'ma fatha concrit. 'Swn i'n deud bod y matras yma er pan gafodd y lle ei adeiladu ddau gan mlynedd yn ôl. Mae 'na spring yn tyllu 'nhin i. Ac mae'r llofft fel bocs, does 'na'm lle i chwifio hosan heb sôn am gath. Mae 'na bedwar ohonon ni yma: fi, Dei, Alun a Jason. Mae'r 'A crowd' drws nesa: Gags, Nobi a'r criw. Maen nhw'n dal i chwerthin, bastads, ti'n gallu clywed pob dim trwy'r waliau 'ma. Dw i'n mynd i gael gwersi Kung Fu neu karate neu rwbath pan fydd hwn drosodd. Dw i'n ysu am gael rhoi karate chop reit yn nhrwyn Nobi, nes mae o'n fflatnar ac yn beichio crio wrth fy nhraed i ac yn sgrechian am faddeuant. A Gags hefyd. Dw i'm yn dallt pam ei fod yntau wedi penderfynu pigo arna i. Ond fel hyn bydd hi rŵan, beryg. Tridiau o uffern.

O leia tydan ni ddim mewn cwt. Mae o'n fwy o blasdy, anferth o le, wedi cael ei addasu yn dormitories bach i fyny grisiau. Ac mae 'na ryw fath o wres yma, ond mae'r system yn hen fel cant, a dw i'n blydi fferru. Gawson ni'n hel i mewn fatha defaid pan gyrhaeddon ni, a'n rhannu i'r llofftydd fesul pedwar. Wedyn gawson ni swper. Roedd o'n afiach. Rhyw fath o stiw efo lympiau o rwbath oedd i fod yn gig ynddo fo. Ond roedd y pwdin yn ocê, 'blaw bod 'na UFOs yn y cwstard.

(Trowch y dudalen)

Wedyn, ar ôl 'gair o groeso' gan Roger, y boi sy'n rhedeg y lle 'ma ac sy'n edrych fel dyn SAS a dwylo fel rhawiau ganddo fo, gawson ni'n rhannu yn grwpiau o chwech. Y chwech fydd efo'i gilydd ar gyfer y gweithgareddau bob munud o'r penwythnos. A dw i'n dal ddim yn credu fy ngrŵp i. Mae gan rywun yn rhywle uffar o synnwyr digrifwch od, a Tecs blydi Pecs ydi hwnnw, mi fetia i fy Applemac. Y pump sydd efo fi ydi Dei, Nobi, Gags, Gwenan (dw i'm yn meindio'r darn yna) ac Olwen, rhyw hen snoten fach sy yn ein dosbarth ni. Grêt. Blydi grêt. Roedd llygaid Nobi'n troi yn 'i ben o, roedd o gymaint wrth 'i fodd.

"Wel, Llinyn Trôns! 'Dwyt ti'n foi lwcus yn cael bod yn ein tîm ni!"

Wnes i'm trafferthu ateb.

(Trowch y dudalen)

**BACHGEN YN Y MÔR – MORRIS GLEITZMAN (ADDASIAD ELIN MEEK)**

**2.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**21.** **Sut berthynas sydd rhwng Jamal a Bibi? Cyfeiriwch at 2 ddigwyddiad i esbonio hyn.**
**[3 marc]**

**22.** **Erbyn diwedd y nofel mae Jamal a Bibi yn poeni bod eu rhieni wedi marw. Nodwch 3 pheth i esbonio pam eu bod yn meddwl hyn. [3 marc]**

**23.** **Ysgrifennwch hanes y teulu yng ngwersyll y ffoaduriaid.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**24.** **Sut gymeriad yw Bibi? Pam rydych chi'n dweud hyn?**
**Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. [6 marc]**

**25.** **Edrychwch ar y darn a gymerwyd o BACHGEN YN Y MÔR ar dudalennau 12–13.**

**(a)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linell 7 yn y darn.**
**Daw ton o ryddhad drosta i.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(b)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linell 46 yn y darn.**
**Mae hyn yn anhygoel.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(c)** **Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol.**

**[4 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**26.** **Dychmygwch mai chi yw JAMAL.**
**Ysgrifennwch LYTHYR at Yusuf o'r siop wag yn y ddinas.**
**Cofiwch sôn am eich teimladau a'r pethau sydd wedi digwydd hyd at y rhan hon yn y nofel.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

‘Jamal, beth wyt ti’n wneud?’

Llais, yn sibrwd yn gas arna i o’r cysgodion.

Dw i’n rhewi, mae fy nghoesau’n crynu a’m perfedd yn gwlwm i gyd. Dw i’n syllu i’r tywyllwch.

‘Rwyt ti’n chwarae pêl-droed yn y stryd,’ sibryda’r llais yn gas eto.

Daw ton o ryddhad drosta i. ‘Mam?’ sibrydaf. ‘Dad?’

Ond nid Mam neu Dad sydd yno. Bibi sydd yno. Mae’n dod tuag ataf, a’i llygaid yn grwn fel llifoleuadau stadiwm.

‘Paid â chodi dy lais,’ sibrydaf.

Mae hi’n ufuddhau. ‘Fe welais i ti’n cropian allan o’r seler,’ medd hi’n gyhuddgar.

Dw i’n ochneidio. Dyna’n union ro’n i’n gobeithio na fyddai’n digwydd. Dyna pam na fentrais agor fy mag a gwneud sŵn wrth nôl fy mhel. Dyna pam benthyciais i bêl Yusuf.

‘Pêl Yusuf yw honna,’ medd Bibi, hyd yn oed yn fwy cyhuddgar.

‘Dw i’n gwybod,’ meddaf, gan feddwl tybed sut gallaf ei chael hi’n ôl i’r seler heb ddeffro’r cymdogion.

‘Ble mae Mam a Dad?’ mynna. Mae ei llygaid yn disgleirio’n beryglus sy’n golygu naill ai dagrau neu ymosodiad.

Dw i’n egluro bod Mam a Dad wedi mynd i rybuddio rhieni plant eraill yr ysgol.

(Trowch y dudalen)

'Fe fyddan nhw'n saff,' meddaf. 'Maen nhw wedi gwisgo'n wahanol. Fe gawson nhw fenthyg gwisgoedd gan dad-cu Yusuf.'

Dyw hyn ddim yn wir, ond dw i'n gallu gweld bod Bibi'n teimlo'n well, ac mewn ffordd ryfedd dw innau'n teimlo'n well hefyd.

'Dw i eisiau chwarae,' medd Bibi.

Cyn i mi allu ei rhwystro, mae'n cicio'r bêl oddi wrth fy nhroed. Dw i'n mynd amdani, ond mae hi'n ochrgamu'r dacl ac yn llywio'r bêl i lawr y stryd. Mae'n troi ac yn driblo'n ôl tuag ataf.

'Dere,' medd hi. 'Dere i gael y bêl oddi wrtha i.'

Dw i'n taclo mor gyflym ag y gallaf, ond mae hi'n rhoi cic sydyn i'r bêl dros fy mhigwrn, yn rhedeg o'm cwmpas ac yn dal y bêl o dan ei throed.

Dw i'n rhythu arni, yn hanner dig ac yn hanner gwenu. Mae hyn yn anhygoel. Mae fy chwaer yn bêl-droediwr naturiol.

Mae syniad rhyfeddol yn fy nharo. Gallwn wneud hyn gyda'n gilydd. Gallwn wella ein sgiliau a chreu argraff ar y llywodraeth a dechrau tîm cenedlaethol ac ennill calonnau pob un yn Afghanistan gyda'i gilydd. Pan fydd y llywodraeth yn gweld pa mor dalentog yw Bibi, byddant yn newid eu meddwl am ferched yn chwarae pêl-droed. Bydd rhaid iddyn nhw.

(Trowch y dudalen)

**DIFFODD Y SÊR – HAF LLEWELYN**

**3.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**31.** **Sut berthynas sydd rhwng Anni a Lora? Cyfeiriwch at 2 ddigwyddiad i esbonio hyn.**

**[3 marc]**

**32.** **Erbyn diwedd y nofel daeth y newyddion bod Gruff Wmffra'n fyw. Nodwch 3 pheth i esbonio sut digwyddodd hyn. [3 marc]**

**33.** **Ysgrifennwch hanes Anni'n mynd i'r siop ac yna'n dwyn y bag melfed.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**34.** **Sut gymeriad yw Ellis? Pam rydych chi'n dweud hyn?**
**Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. [6 marc]**

**35.** **Edrychwch ar y darn a gymerwyd o DIFFODD Y SÊR ar dudalennau 17–18.**

**(a)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linell 7 yn y darn.**
**Rhuthrais at y drws ac aros am funud.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(b)** **Edrychwch ar arddull llinell 18 yn y darn.**
**"Lwcus? Ydach chi'n meddwl, Gwen?"**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(c)** **Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol.**

**[4 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**36.** **Dychmygwch mai chi yw HYWEL.**
**Ysgrifennwch LYTHYR Hywel at ffrind ar ôl iddo briodi Lora.**
**Cofiwch sôn am eich teimladau a'r pethau sydd wedi digwydd hyd at y digwyddiad hwn.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Dim ond wedi i mi adael Lora a brysio yn fy mlaen am adra y gwnes i gofio am y telegram. Wyddwn i ddim yn iawn beth oedd y neges a gafodd mam Lora y bore hwnnw, chafodd hi ddim cyfle i ddweud wrth gwrs, a bai y snichyn yna, Wil Ffurat, oedd hynny.

Rhuthrais at y drws ac aros am funud. Roedd Mam yn eistedd wrth y bwrdd yn y gegin a Gwen Jones efo hi yn cael paned, a llestri dydd Sul ar y bwrdd.

"Wel dyna fo, o leiaf mae **o** yn cael dod yn ei ôl adra," sniffiodd Gwen Jones. Gafaelai'n ofalus yng nghlust y gwpan fach gain, fel tasa hi'n ofni iddi falu'n deilchion o dan ei bysedd. "O leiaf mae o'n un o'r rhai lwcus ..." meddai'n bendant, a thrawodd y gwpan fach ar y soser nes y neidiodd y llwy arian.

Edrychodd Mam i'r tân wedyn.

"Lwcus? Ydach chi'n meddwl, Gwen?" meddai'n dawel. Gwelodd fi'n sefyll yn y drws, a safodd yn sydyn, gan roi nòd i 'nghyfeiriad i a gwneud llygaid bach ar Gwen Jones. Roeddwn i'n gwybod yn iawn beth roedd hynny'n ei olygu – arwydd i Gwen Jones dewi, a pheidio â sôn ychwaneg am beth bynnag roedden nhw'n ei drafod. Rhyfedd ydi pobl, yn meddwl nad ydw i'n ddigon hen i wrando ar sgwrs pobl mewn oed, a finna bron yn bedair ar ddeg.

(Trowch y dudalen)

“Ann! Dyma ti o’r diwedd! Ble buest ti mor hir? Stelcian efo’r hogia yna wrth y Felin, yn lle dod yn dy flaen adra, a thitha wedi bod yn sâl, ia?” Roedd Mam yn siarad yn rhy gyflym, fel y bydd pobl pan mae ganddyn nhw rywbeth i’w guddio.

“Cerdded efo Lora wnes i,” atebais. Dwi’n gwybod na ddyliwn i ateb Mam yn ôl, yn arbennig â Gwen Jones yn eistedd yno fel brenhines. Ond doeddwn i ddim yn stelcian efo’r hogia, achos hen hogia gwirion ydyn nhw, a faswn i byth yn stelcian efo Wil Ffurat, beth bynnag. Roeddwn i’n flin efo Mam am awgrymu’r ffasiwn beth, ac o flaen Gwen Jones o bawb.

“Efo Lora?” Trodd y wraig ata i ac aros, fel tasa hi’n disgwyl i mi ddweud rhagor.

“A sut hwyliau oedd ar Lora Margaret heddiw?” gofynnodd wedyn. Mae’n gas gen i weld Gwen Jones wrth fwrdd y gegin. Mae hi’n un o’r bobl hynny rydach chi’n gorfod bod yn ofalus beth i’w ddweud yn ei chwmni. Mae hi’n eistedd yno wrth y bwrdd yn ei dillad duon, y les du’n cau am ei gwddw main, a’r ffwr llwynog am ei hysgwyddau.

(Trowch y dudalen)

## AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – ALUN JONES

4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion**.
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

41. Sut berthynas sydd rhwng Meredydd a Gladys? Cyfeiriwch at **2** ddigwyddiad i esbonio hyn.
[3 marc]

42. Erbyn diwedd y nofel mae Gladys wedi marw. Nodwch **3** pheth i esbonio sut digwyddodd hyn.
[3 marc]

43. Ysgrifennwch hanes RICHARD JONES yn dianc ar ddiwedd y nofel.
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10 marc]

(Trowch y dudalen)

**44.** **Sut gymeriad yw Gladys? Pam rydych chi'n dweud hyn?**
**Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. [6 marc]**

**45.** **Edrychwch ar y darn a gymerwyd o AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR ar dudalennau 22–23.**

**(a)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 11–12 yn y darn.**
**Tŷ gwydr. Ffensi. Gerddi taclus. Tai. Tai ym mhobman.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(b)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linell 51 yn y darn.**
**Daeth y gwirionedd yn don rewllyd drosto …**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(c)** **Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol.**

**[4 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

46. **Dychmygwch mai chi yw GLADYS.**
**Ysgrifennwch LYTHYR Gladys at ffrind ar y noson cyn iddi farw.**
**Cofiwch sôn am eich teimladau a'r pethau sydd wedi digwydd.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.** **[10 marc]**

**[40 MARC]**

(Trowch y dudalen)

Dechreuodd ei galon guro'n gyflymach wrth iddo fynd heibio i ffordd Tan Ceris ar y chwith. Yr oedd yn gymaint ag y gallai wneud i'w atal ei hun rhag aros yn y fan a'r lle a llamu dros ben y cloddiau a thyrchu i nôl ei ffortiwn. Ac yna dychrynodd. Yr oedd wedi gweld dau siâp mawr annisgwyl dros y gwrych ar yr ochr chwith, un wrth ochr y llall. Be gebyst? Arafodd y car ac arhosodd ar ochr y ffordd. Craffodd drwy'r ffenest. Yr oedd y gwrych ar ei ffordd. Agorodd y drws a safodd ar hiniog y car iddo gael gweld yn well. Tŷ gwydr. Ffensi. Gerddi taclus. Tai. Tai ym mhobman. Disgynnodd yn ôl i'r car a'i lygaid yn serennu yn ei ben. Teimlai ei fron yn mynd yn dynn i gyd a meddyliodd ei fod am fygu. Agorodd y ffenest wrth ei ochr. Curai ei galon fel gordd.

Yr oedd yn laddar o chwys fel y gyrrai'n araf ymlaen. Daliai i weld toau tai yr ochr arall i'r gwrych, a phan ddaeth at y fan lle'r oedd y ffordd fach garegog y parciodd ei gar arni pan oedd yn cuddio'r gemau, nid oedd hanes ohoni, dim ond tua deg troedfedd o wrych yn amlwg o'i daclusrwydd yn fwy newydd na'r gweddill ohono. Am nad ai'r ffordd fach i unman ond i ganol y caeau, yr oeddynt wedi ei chwalu o fodolaeth ac wedi cau'r bwlch ar ochr y ffordd fawr.

(Trowch y dudalen)

Darfu'r tai. Ac yna gwelodd Richard y ffordd newydd sbon yn mynd i'r chwith. Gwelodd y ddau arwydd gwyn bob ochr i'r ffordd, a'r geiriau Maes Ceris mewn llythrennau breision arnynt. Gwelodd y palmantau taclus a'r polion lamp concrid.

Mewn hunllef trodd y car ar hyd y lôn. Ymhen ychydig lathenni yr oedd ganddo ddewis o droi i'r chwith i ganol tai neu i fynd yn syth ymlaen i ganol tai. Tua'r chwith yr oedd y diemwntiau ac i'r chwith yr aeth Richard.

Yr oedd y tai newydd bob ochr i'r ffordd gyda waliau brics isel o'u hamgylch. Wrth fynd ymlaen, gwelai Richard nifer o ffyrdd llai yn troi i'r dde bob hyn a hyn a mwy o dai ar eu hyd a chyn bo hir yr oedd y ffordd yr oedd Richard arni ei hun yn troi i'r dde, ac ar ôl troi gwelodd Richard ffordd Tan Ceris y tu ôl i'r tai i'r chwith iddo. Cyraeddasai ben draw'r stad.

Troai'r ffordd i'r dde eilwaith ar ôl rhyw ganllath a gyrrodd Richard yn araf i geisio darganfod unrhyw beth cyfarwydd, ond nid oedd hanes o'r hen wrychoedd na'r coed na dim, a chyn iddo lawn sylweddoli hynny, yr oedd wedi troi i'r dde unwaith eto ac wedi cyrraedd yn ôl i'r fan y cychwynnodd. Daeth y gwirionedd yn don rewllyd drosto; yr oedd caeau Tan Ceris yn dai i gyd, ac yr oedd y diemwntiau ar goll. Yr oedd yr holl baratoi a'r cynllunio, y mentro a'r poeni, wedi bod yn ofer.

(Trowch y dudalen)

## I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – EIRUG WYN

**5.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**51.** **Sut berthynas sydd rhwng Carson a Dicks? Cyfeiriwch at 2 ddigwyddiad i esbonio hyn.**
**[3 marc]**

**52.** **Erbyn diwedd y nofel mae Haul y Bore eisiau dial ar Dicks. Nodwch 3 pheth i esbonio pam mae hi eisiau gwneud hyn. [3 marc]**

**53.** **Ysgrifennwch pam a sut mae Chico yn ymosod ar y Cotiau Glas ac yna'n cael ei gosbi.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen. [10 marc]**

(Trowch y dudalen)

**54.** **Sut gymeriad yw DICKS? Pam rydych chi'n dweud hyn?**
**Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. [6 marc]**

**55.** **Edrychwch ar y darn a gymerwyd o I BLE'R AETH HAUL Y BORE? ar dudalennau 27–28.**

**(a)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 12–13 yn y darn.**
**Gwenodd, a daeth rhes o ddannedd brown, budron i'r golwg.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(b)** **Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 30–31 yn y darn.**
**Roedd hi eisiau chwydu. Chwydu ei pherfedd ar y borfa.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(c)** **Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol.**

**[4 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**56.** **Dychmygwch mai chi yw KIT CARSON.**
**Ysgrifennwch LYTHYR at ffrind yn sôn am ei hanes yn dianc o'r carchar yn Ffort Defiance.**
**Cofiwch sôn am eich teimladau a'r pethau sydd wedi digwydd.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Roedd Chiquito'n dynn yn ei mynwes a hithau'n nesáu gam wrth gam tuag at ddiogelwch. O'i hôl clywodd sŵn carlamu gwyllt a gwyddai fod y milwr yn dod ar wib. O fwrw cipolwg dros ei hysgwydd gwelodd y ceffyl yn dod ar ei gwarthaf. Hyrddiwyd hi a Chiquito i'r llawr. Cododd ar ei heistedd gan afael yn dynn yn ei baban. Edrychodd ar y milwr. Roedd hwnnw wedi disgyn o'i gyfrwy ac yn sefyll uwch ei phen a'i bistol yn ei law.

Roedd yn ŵr mawr, cydnerth a barf goch yn cuddio'r rhan fwyaf o'i wyneb. Roedd o'n cnoi baco. Gwenodd, a daeth rhes o ddannedd brown, budron i'r golwg. Poerodd y sug ar lawr wrth ei draed. Rhoddodd ei bistol yn ôl yn ei holster. Daeth ton o ryddhad dros Haul y Bore. Doedd o ddim yn mynd i'w saethu wedi'r cyfan. Estynnodd un llaw ati fel petai am ei chynorthwyo i godi, ond yr eiliad nesaf roedd o wedi cipio Chiquito oddi arni. Cododd hithau i'w amddiffyn ond cafodd ddyrnod yn ei hwyneb nes roedd hi ar lawr drachefn.

"Na!" sgrechiodd.

Roedd Dicks wedi taflu'r baban wrth ei draed ac yn dadweinio'i gledd.

"Un arall yn llai – bitsh!" ysgyrnygodd. Yna gwthiodd ei gleddyf drwy stumog y plentyn.

Fferrodd Haul y Bore. Fedrai hi wneud na dweud dim. Roedd hi eisiau sgrechian

(Trowch y dudalen)

"CHIQUITO!" ond rhewodd yr enw ar ei gwefusau a llanwyd ei llygaid â dychryn. Roedd hi eisiau chwydu. Chwydu ei pherfedd ar y borfa. Roedd hi eisiau marw. Marw fel ei Chiquito.

Ond doedd Dicks ddim wedi gorffen. Roedd rhai o'r milwyr eraill yn dod draw ato, a chan fod ganddo gynulleidfa, roedd o am roi sioe go iawn iddyn nhw. Cododd ei gleddyf uwch ei ben a disgynnodd y llafn creulon ar ŵyr at y corff llonydd wrth ei draed. Prociodd, a chododd ei gledd. Bloeddiodd y milwyr eu cymeradwyaeth. Roedd pen y baban ar flaen y cleddyf.

Yn ei dychryn ni wyddai Haul y Bore beth i'w wneud. Roedd hi eisiau hyrddio'i hun at y milwr blewgoch, roedd hi eisiau ei ddiberfeddu, cowjio'i lygaid o'i ben, ei ysbaddu – ond fedrai hi wneud dim. Gafaelodd yn ei gwallt a'i dynnu o'i wreiddiau. Gwthiodd ei bysedd i'w cheg a'u brathu'n galed. Drwy'r cyfan roedd ei hanadl wedi mynd yn afreolaidd. Roedd yna rywbeth yn gwthio'i ffordd i fyny o'i stumog. Roedd yna waed ar ei phen lle rhwygwyd ei gwallt o'i wraidd, roedd yna waed lond ei cheg. Rhoddodd ei llaw friwedig ym mhlygion ei mynwes a theimlodd garn y gyllell.

(Trowch y dudalen)

**LLYFR GLAS NEBO – MANON STEFFAN ROS**

**6.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**61.** **Sut berthynas sydd rhwng Siôn a Rowenna? Cyfeiriwch at 2 ddigwyddiad i esbonio hyn.**
**[3 marc]**

**62.** **Erbyn diwedd y nofel mae Dwynwen wedi marw. Nodwch 3 pheth i esbonio pam.** **[3 marc]**

**63.** **Ysgrifennwch hanes Rowenna yn dianc i Nebo ar ddechrau'r nofel.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.** **[10 marc]**

64. Sut gymeriad yw SIÔN? Pam rydych chi'n dweud hyn?
Rhowch resymau gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol yn y nofel. [6 marc]

65. Edrychwch ar y darn a gymerwyd o LLYFR GLAS NEBO ar dudalennau 32–33.

(a) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linell 5 yn y darn.
**A dau lygad gwag, marw ....**
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]

(b) Edrychwch ar arddull y rhan hon o linellau 18–19 yn y darn.
**Mi es i i sied Mr a Mrs Thorpe, sy'n ogleuo fatha paent a phren.**
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]

(c) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol.

[4 marc]

(Trowch y dudalen)

66. **Dychmygwch mai chi yw ROWENNA.**
**Ysgrifennwch LYTHYR at Gaynor ar ddiwedd y nofel yn sôn am ei chyfnod yn Nebo yn ystod Y Terfyn.**
**Cofiwch sôn am eich teimladau a'r pethau sydd wedi digwydd.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen. [10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Sgwarnog oedd o, ond roedd o’n afiach. Ar gefn ei ben, yn codi tu ôl i’r clustiau hirion yna, roedd ’na lwmp. Lwmp mawr, ac roedd gan y lwmp geg fach a dannedd a dwy glust fach, fach fel stympiau. A dau lygad gwag, marw, fel tasa rhywun wedi dwyn y peli yn ei lygaid.

’Nes i chwydu yn y fan a’r lle.

Roedd o’n afiach, y sgwarnog yma efo dau wyneb, fel un creadur a hanner mewn un corff. Ac roedd bob dim sy’n glws mewn sgwarnog yn hyll yn yr ail wyneb fflat, marw ar gefn ei ben.

Roedd y sgwarnog yn crio.

Dwn i ddim be wnaeth i fi neud o. Fedrwn i’m ei ladd o, falla am na fedrwn i fyta ffasiwn beth. Ond ’swn i wedi gallu gadael iddo fo fynd. Ond fedrwn i ddim gwneud hynny chwaith, er, dwi’m yn siŵr pam.

Mi es i i sied Mr a Mrs Thorpe, sy’n ogleuo fatha paent a phren. Roedd o’n dal yr un fath ag oedd o flynyddoedd yn ôl, heblaw ’mod i wedi benthyg rhai o’r tŵls a’r hen gryman. Mam oedd yn gwneud i mi ddeud ‘benthyg’, achos ro’n i’n gwybod na faswn i byth yn gorfod eu rhoi nhw’n ôl.

Roedd ’na hen gynfas wen yna, yn stremps paent i gyd. Dyma fi’n mynd â hi at y trap ac yn penlinio wrth y sgwarnog. Dyma fo’n agor ei geg fel tasa fo’n gweiddi, ond doedd ’na ddim sŵn yn dod allan.

(Trowch y dudalen)

Lluchiais i'r flanced dros y sgwarnog, gan adael ei ben o a'i goes yn y golwg. Roedd o'n llonydd. Ac yna dyma fi'n defnyddio darn o bren i agor dannedd y trap, a thynnu troed y sgwarnog yn rhydd.

Wnaeth o ddim rhedeg i ffwrdd. Mi godais i o yn y flanced, a mynd â fo yn fy mreichia i'r sied. Doedd o ddim yn teimlo dim gwahanol i unrhyw sgwarnog arall, heblaw ei fod yn crynu. Fysach chi ddim wedi deud fod ganddo fo ail wyneb o gwbwl.

Ar ôl ei adael o yn y sied, mi es i allan a hel petha neis, meddal – gwair a dail a ballu – iddo fe gael gwneud gwely bach os oedd o isio. Roedd o'n cuddiad y tu ôl i un o'r cypyrddau. Mi arhosais i am ychydig i weld ddôi o allan, ond ddoth o ddim, felly mi es i allan a chau'r drws ar fy ôl.

DIWEDD Y PAPUR